CYNGOR TREF FRENHINOL CAERNARFON

COFNODION PWYLLGOR GWAITH 13 CHWEFROR 2018

Presennol
I C Thomas, E R Hughes, A Hopcyn, S Sage, D Jones, C Larsen,
W R Owen, J W Parry a R Thomas

Cafodd Cyng C Larsen ei ethol yn gadeirydd a Cyng E Hughes ei hethol fel Is-Gadeirydd (yn unfrydol)

1. **Ymddiheuriadau**

Dim

2. **Datgan Buddiant Personol**

Dim

3. **Eitemau Brys (Cadeirydd/Clerc), er gwybodaeth neu i'r Clerc weithredu. Ni chaniateir penderfyniadau**

Dim

Tri eitem o Gyngor 5.12.2017 :

4. **Darpariaeth glanhau strydoedd a thorri a casglu gwair**

Torri Gwair
Cafwyd trafodaeth bod trigolion yn anhapus efo'r ffaith mai dim ond 3 gwaith y flwyddyn mae nifer o lefydd yn cael eu torri bellach gan gynnwys y Fynwent , ac yn waeth na hyn bod y gwair ddim yn cael ei godi sydd yn gwneud llefydd yn flêr
Glanhau strydoedd
Cafwyd gwybodaeth bod Cyngor Bangor mewn perthynas a Cyngor Gwynedd ar y pwnc yma lle mae unigolyn yn cerdded nol a blaen stryd fawr Bangor o dan arian grant

Cafwyd cwestiwn am y peiriant codi gwm cnoi ac eglurodd y clerc mai o dan y cynllun Blitz oedd hyn yn arfer digwydd
Nodwyd bod modd gofyn wrth Mantell Gwynedd am wirfoddolwyr
Nododd Cyng W R Owen bod Cyngor Gwynedd efo peiriant Scarab fydd yn sbâr – oes modd gofyn a fyddai'n bosib ei brynu
Gofynnwyd i ail bwysleisio bod angen i'r peiriannau glanhau fynd o gwmpas ar ôl i'r biniau gael eu hel
Gofynnwyd os oes modd mynd allan efo criw lorri bins a gofyn am eu canllawiau gan bod nifer fawr yn dal yn cwyno bod nhw ddim yn codi sbwriel mae nhw yn gollwng wrth hel ailgylchu (ai oherwydd ei canllawiau mae hyn)

Penderfynwyd

Llythyru Cyngor Gwynedd i ofyn pa safleoedd sydd yn cael ei dorri ar hyn o bryd a pha mor aml . gan ofyn faint fydda cost i godi wrth hel a faint fydda cost toriad ychwanegol .
O Safbwynt glanhau strydoedd

- holi am gynllun Bangor,
- Holi am y scarab,
- Gofyn pryd mae'r Blitz nesaf yn y dref a bod angen y peiriant llnau gwm cnoi,
- gofyn os oes modd mynd allan efo lorri bins ac ailgylchu,
- gofyn am gopi o ganllawiau'r gweithwyr (h.y – os ydynt i fod i godi sbwriel sydd yn disgyn wrth hel)
- ail bwysleisio'r angen i lanhau strydoedd ar ôl i'r biniau gael eu hel – angen gwell cydlynu amserlen .
- Holi Justice for youth i weld rhag ofn bod nhw yn chwilio am brosiect

5. Lleihau nifer o wylanod

Cafwyd sgwrs am y posib o gael hebog a bod angen addysgu pobl yn well i beidio bwydo'r adar
Roedd Cyng J W Parry wedi nodi ystadegau am wyau ac ati gan yr RSPB. Nododd Cyng R Thomas bod Cyngor Gwynedd yn arfer darparu pamffled ar y pwnc a fyddai yn help i'r ysgolion ei dderbyn

Penderfynwyd

- Gofyn wrth Cyngor Gwynedd am y pamffledi a gofyn os oes modd i'r ysgolion lleol eu derbyn
- Ysgrifennu at RSPB i ofyn am eu argymhellion nhw gan ofyn os oes amser gwell i gael yr hebog sydd yn lleihau dodwy
- Gofyn wrth Cyngor Gwynedd rhoi mwy o arwyddion i beidio bwydo'r adar

6. Arolwg llochesi bysiau

Nodwyd bod anghysondeb o safbwynt lleoliadau
Nodwyd bod rhai wedi ei dileu oherwydd ymddwyn gwrth gymdeithasol

Eglurodd y clerc yn hanesyddol roedd y Cyngor yn talu rhywun i'w glanhau bob chwarter ,ac ers inni stopio gwneud hyn bod cynghorwyr i fod i adrodd am unrhyw broblemau ar eu wardiau

Cafwyd sgwrs diddorol am data
Penderfynwyd
Gofyn wrth Cyngor Gwynedd os oes modd derbyn data o llefydd/cysgod fannu prysura (ac yn bwysicach rhai sydd byth yn cael eu defnyddio) gan bod yn ddi-bwrpas ystyried glanhau rhywle sydd byth yn cael ei ddefnyddio a sôn yn y cyngor nesaf beth yw'r drefn presennol

Gorffennodd y cyfarfod am 6.42

Arwyddwyd ..... Dyddiad .....